# 14. Rhosyn y Nadolig

Storïwr: Y noson y ganwyd yr Iesu ym Methlehem, roedd bugeiliaid yn gofalu am y defaid ar y bryniau gerllaw. Roedd hi'n noson oer ac roedd y defaid yn anesmwyth. Yn sydyn dyma'r bugeiliaid yn gweld goleuni mawr ac angel yn sefyll yn eu hymyl. Roedden nhw'n teimlo'n ofnus iawn pan ddechreuodd yr angel siarad â nhw.

Angel: Peidiwch ag ofni, oherwydd wele, yr wyf i yn cyhoeddi i chwi y newyddion da o lawenydd mawr a ddaw i'r holl bobl. Ganwyd i chwi heddiw yn nhref Dafydd, waredwr, yr hwn yw'r Meseia, yr Arglwydd; a dyma'r arwydd i chwi; cewch hyd i'r un bach wedi ei rwymo mewn dillad baban ac yn gorwedd mewn preseb.

Cân: 'Pwy ddaeth at Mair?', *Glas Glas Blaned*.

Storïwr: Roedd y bugeiliaid wedi cael braw, a phan aeth yr angel i ffwrdd, dyma nhw'n siarad â'i gilydd.

Bugail 1: Glywaist ti beth dd'wedodd yr angel? Mae'r Meseia wedi'i eni ym Methlehem. Rhaid i ni fynd ar unwaith i'w weld.

Bugail 2: Pwy ydy'r baban pwysig yma?

Bugail 3: Gwell i ni fynd i weld ein hunain.

Bugail 4: Ie, dewch i ni gael mynd i weld y baban pwysig yma.

Bugail 1: Fe fydd rhaid i rywun aros i edrych ar ôl y defaid.

[*Pwyntio at Fugail 4*] Ti yw'r ieuengaf. Well i ti aros.

Bugail 4: O na! Dwi eisiau dod i weld y baban.

Bugail 2: O'r gora, gan ei bod hi'n noson bwysig, fe gei di ddod.

[*Pawb yn cytuno*]

Bugail 1: Rhaid i ni fynd ag anrheg i'r baban newydd. Mi af i â chôt o wlân iddo, i'w gadw'n gynnes ar noson oer.

Bugail 2: Mi af i ag oen bach iddo. Fydd e'n gallu chwarae gyda'r oen bach pan fydd angen cwmni arno.

Bugail 4: Does dim anrheg gen i i'r baban.

Bugail 3: Mi af i â ffon i'r baban – efallai pan fydd e'n tyfu'n ddyn y bydd o'n fugail hefyd.

Bugail 4: Does dim gen i ddim i'w roi i'r baban.

Cân: 'Bugeiliaid Ŷm', *Glas Glas Blaned*.

Bugail 1: 'Sdim ots. Dere, fe awn ni i Fethlehem.

Bugail 4: Na, ewch chi. Fe arhosa i i edrych ar ôl y defaid.

Bugail 3: Dere – fydd y defaid yn iawn.

Bugail 4: Na, ewch chi – fydda i'n iawn.

[*Tri bugail yn gadael*]

Storïwr: Felly aeth y tri bugail i Fethlehem gan adael y bugail bach ar ei ben ei hun. Roedd e'n teimlo'n drist iawn o feddwl na châi yntau weld y baban pwysig ym Methlehem. Yn sydyn dyma'r angel yn ymddangos eto.

Angel: Pam wyt ti'n edrych mor drist? Pam nad wyt ti wedi mynd gyda phawb arall i Fethlehem?

Bugail 4: Does gen i ddim anrheg i'r baban.

Angel: Does dim angen i ti fynd ag anrheg i'r baban Iesu. Bydd e'n derbyn anrhegion drud gan dri brenin o'r dwyrain. Dyw Iesu ddim yn disgwyl i ti roi anrheg iddo – bydd e'n falch o dy weld di. Mae e'n faban arbennig iawn.

Bugail 4: Na, mae fy ffrindiau i gyd wedi mynd ag anrheg iddo, alla i ddim mynd heb ddim.

Angel: Os wyt ti'n dymuno mynd ag anrheg, edrych wrth dy draed. Weli di yno flodau hardd yn tyfu, blodau gwyn, yn bur ac yn lân fel yr eira. Cymer y blodau yn anrheg iddo.

Bugail 4: O! mae'r blodau'n brydferth. [*Codi'r blodau*]
Mi af i â'r rhain i'r baban Iesu.

Storïwr: Dyma'r angel yn diflannu. Aeth y bachgen ar ôl y bugeiliaid i Fethlehem, i'r stabl i weld y baban Iesu.

Ym Methlehem y noson honno roedd Mair a Joseff wedi cael lloches mewn stabl am nad oedd lle iddyn nhw yn un man i aros. Yno fe anwyd mab bach iddyn nhw ac fe gafodd ei enwi'n Iesu.

Roedd tri gŵr doeth wedi teithio o bell i edrych am y baban. Roedden nhw wedi dilyn seren, ac roedden nhw'n credu y byddai'r seren yn eu harwain at fab Duw. Gwaredwr y byd. Ac fe ddaethon nhw i'r stabl i weld y baban Iesu. Pan welson nhw'r baban, syrthiodd y tri ar eu gliniau gan ddiolch i Dduw am eu harwain at y Gwaredwr.

Brenin 1: Rydan ni wedi teithio o wlad bell i ddod i weld y baban pwysig hwn. Dyma fy anrheg i i'r Brenin, aur.

Brenin 2: Rydan ni wedi disgwyl yn hir am y diwrnod hwn. Cael gweld Ceidwad byd yn faban. Thus yw fy rhodd i iddo.

Brenin 3: Myrr yw fy rhodd i i'r baban. Dilyn y seren a wnaethon ni er mwyn dod o hyd i Waredwr yr holl fyd.

Cân: 'Un Seren Wen', *Glas Glas Blaned*.

Storïwr: Daeth y bugeiliaid i'r stabl gan synnu at yr ymwelwyr oedd yno, rhai pwysig iawn, ac roedden nhw wedi rhoi anrhegion drud i'r baban. Rhoddodd y bugeiliaid eu hanrhegion hwythau ...

[*Pob bugail yn dod ymlaen â'i anrheg*]

... y gôt wlân ... yr oen bach ... a'r ffon fugail. Daeth y bugail bach â'i anrheg yntau ... y blodyn gwyn. Gwenodd y baban Iesu wrth weld prydferthwch y blodyn, ac roedd y bugail bach yn hapus iawn.

Storïwr: Roedd Mair a Joseff yn llawen iawn o weld y bugeiliaid a'r tri brenin, ac yn gwerthfawrogi'r holl roddion a gafodd y baban Iesu.

Cân: 'Cwsg, cwsg, cwsg mewn hedd', *Glas Glas Blaned*.

Storïwr: Ydach chi wedi gweld blodyn gwyn sy'n blodeuo adeg y Nadolig? Dyna Rosyn y Nadolig. Efallai fod Duw yn danfon y rhosyn Nadolig gwyn i'n hatgoffa am y baban Iesu a anwyd ym Methlehem ddwy fil o flynyddoedd yn ôl. Ac efallai fod y rhosyn gwyn yn dod yn nhywyllwch y gaeaf i'n hatgoffa fod yna oleuni mewn tywyllwch a bod yna obaith i blant y byd.

Carol: 'Ganwyd Crist ym Methlehem', *Glas Glas Blaned*.

**DIWEDD**